# CYNLLUN BUSNES SWYDDFA CYMRU

# 2015 - 20

**Nod: Hyrwyddo buddiannau gorau Cymru yn y Deyrnas Unedig**

*Bydd y cynllun busnes hwn yn cael ei ddiweddaru o bryd i'w gilydd*

*Gorffennaf 2015*

# CYFLWYNIAD

Pwrpas Swyddfa Cymru

Mae Swyddfa Cymru yn cefnogi Ysgrifennydd Gwladol Cymru i hyrwyddo buddiannau gorau Cymru yn y Deyrnas Unedig. Mae'n sicrhau bod buddiannau Cymru yn cael eu cynrychioli’n llawn ac yn effeithiol wrth galon Llywodraeth y DU, a bod cyfrifoldebau Llywodraeth y DU yn cael eu cynrychioli'n llawn ac yn effeithiol yng Nghymru.

Mae Swyddfa Cymru hefyd yn cynorthwyo'r Ysgrifennydd Gwladol i sicrhau bod y setliad datganoli yn gweithio'n ddidrafferth yng Nghymru.

Ein gweledigaeth yw sicrhau Cymru decach, fwy ffyniannus ac uchelgeisiol. Byddwn yn cyflawni hyn drwy weithio mewn partneriaeth â chydweithwyr yn Whitehall, Llywodraeth Cymru ac eraill yn y trydydd sector a'r sectorau cyhoeddus a phreifat.

Ni yw llais Cymru yn San Steffan a llais San Steffan yng Nghymru.

Gwerthoedd.

Mae Swyddfa Cymru yn cynnal ei busnes gyda phriodoldeb ac mewn modd cwrtais, effeithlon ac effeithiol, yn unol â’i gwerthoedd craidd. Sef:

- sicrhau’r fargen orau i Gymru. Dyma ein prif flaenoriaeth o hyd ac mae'n effeithio ar bob agwedd ar ein gwaith;
- sicrhau ansawdd a rhagoriaeth ym mhopeth a wnawn;
- cefnogi a datblygu ein staff, a sicrhau bod ganddynt amgylchedd gweithio diogel; a
- bod yn agored ac yn dryloyw, a gweithio mewn partneriaeth ag eraill.

Rydym yn dangos y gwerthoedd hyn drwy wneud y canlynol:

- Rhoi gwerth am arian a rheoli costau yn effeithiol. Rydym yn rhoi rhaglen o arbedion effeithlonrwydd ar waith ac yn adolygu gwasanaethau Swyddfa Cymru a gaiff eu darparu gan adrannau eraill yn y Llywodraeth er mwyn gwneud yn si□r bod gwasanaethau'n cael eu darparu mewn modd effeithiol a darbodus;
- Sicrhau rheolaeth ariannol dda, gyda systemau rheoli ariannol effeithiol yn eu lle. Anelwn at dalu anfonebau yn brydlon o fewn 10 diwrnod gwaith (5 diwrnod gwaith yng nghyswllt mentrau bach a chanolig eu maint), trosglwyddo taliadau grant yn ddi-oed i Lywodraeth Cymru a pharatoi adroddiadau ariannol cywir (gan gynnwys adroddiadau blynyddol a chyfrifon);
- Rhoi ymateb amserol a manwl i ohebiaeth gan y cyhoedd, Cwestiynau Seneddol, ceisiadau Rhyddid Gwybodaeth ac ymholiadau gan y Cynulliad a'r Senedd;
- Cynnal gweithlu cymwys, llawn cymhelliant. Mae Swyddfa Cymru wedi ymrwymo i recriwtio pobl dalentog a chynnal gweithlu medrus, gwydn ac ymgysylltiol. Rydym yn defnyddio dulliau effeithiol o gynllunio ar gyfer olyniaeth a rheoli perfformiad, ynghyd â systemau dysgu a datblygu sydd wedi'u teilwra'n arbennig i sicrhau bod gennym weithlu hyblyg, effeithiol ac addas i'r diben sy'n cael ei arwain yn effeithiol. Mae gennym Gynllun Pobl i roi hyn ar waith;
- Rydym yn sicrhau y caiff y wybodaeth sydd ym meddiant Swyddfa Cymru ei rheoli a’i gwarchod yn briodol er mwyn diogelu buddiannau'r Llywodraeth ac aelodau unigol o'r cyhoedd;
- Rydym yn cyflwyno rhaglen barhaus o welliannau a gwaith iechyd a diogelwch yn adeiladau Swyddfa Cymru.

# AMCANION SWYDDFA CYMRU

## *Amcan 1*:

*Hyrwyddo economi a buddiannau economaidd Cymru*

## *Canlyniadau*

- Gweithio gyda chydweithwyr yn Llywodraeth y DU, Llywodraeth Cymru, Busnes a gyda rhanddeiliaid eraill i ysgogi twf economaidd a chreu economi mwy cytbwys yng Nghymru
- Gweithio gydag eraill i annog mewnfuddsoddi yng Nghymru
- Codi ymwybyddiaeth o bopeth sydd gan Gymru i'w gynnig yn economaidd.

## *Prif weithgareddau:*

| A. Gweithio gyda chydweithwyr yn Llywodraeth y DU, Llywodraeth Cymru ac eraill i hyrwyddo twf economaidd ac i roi hwb i fentergarwch yng Nghymru | |
|---|---|
| ▪ Parhau i atgyfnerthu cysylltiadau sefydledig gyda'r gymuned fusnes yng Nghymru ac oddi allan iddi, gan feithrin perthnasoedd newydd a sicrhau bod sianeli cyfathrebu effeithiol ar agenda economaidd Llywodraeth y DU. | Yn parhau |
| ▪ Cryfhau Bwrdd Cynghori Economaidd yr Ysgrifennydd Gwladol er mwyn iddo yrru prosiectau penodol yn eu blaenau a chynnig dealltwriaeth a chymorth clir i Weinidogion | Medi 2015 |
| ▪ Sicrhau bod buddiannau ac anghenion Cymru yn cael eu hadlewyrchu yng nghynllun Llywodraeth y DU i wella seilwaith ledled y DU, gyda ffocws penodol ar gludiant, ynni a band eang, er mwyn denu busnesau a swyddi da i bob rhan o Gymru | Yn parhau |
| ▪ Gweithio gydag Adrannau eraill yn y Llywodraeth i sicrhau bod cymunedau a chadwyni cyflenwi lleol yn cael y budd mwyaf posibl o brosiectau seilwaith mawr yng Nghymru gan ddarparu contractau i gwmnïau lleol a swyddi i bobl leol. | Yn parhau |
| ▪ Darparu momentwm ac uchelgais o ran cynlluniau ar gyfer Cynllun Dinesig Caerdydd, gan weithio gyda rhanddeiliaid, arweinwyr cynghorau, Llywodraeth Cymru a chydweithwyr yn Whitehall. | Mawrth 2016 |
| ▪ Hybu buddsoddiad yng Ngogledd Cymru er mwyn sicrhau ei bod yn cael budd o fanteision y Pwerdy Gogleddol, gan gynnwys cynorthwyo partneriaid lleol i baratoi achos busnes cadarn ar gyfer gwella prif reilffordd Gogledd Cymru | Medi 2016 |
| ▪ Cydweithio â'r Adran Drafnidiaeth a Llywodraeth Cymru i sicrhau bod y cytundeb i drydaneiddio rhwydwaith reilffordd De Cymru, ac i ddatganoli'r cyfrifoldeb dros ryddfraint rheilffordd Cymru a'r Gororau i Lywodraeth Cymru, yn cael eu rhoi ar waith. | Erbyn diwedd 2018. |

| A. Gweithio gyda chydweithwyr yn Llywodraeth y DU, Llywodraeth Cymru ac eraill i hyrwyddo twf economaidd ac i roi hwb i fentergarwch yng Nghymru | |
|---|---|
| ▪ Gweithio gyda'r Adran Ynni a Newid Hinsawdd ac eraill i hwyluso'r gwaith o adeiladu prosiectau ynni newydd mawr yng Nghymru a sicrhau bod penderfyniadau ynghylch ceisiadau am ffermydd gwynt ar y tir yn cael eu gwneud ar lefel fwy lleol. | Yn parhau |
| ▪ Gweithio gyda'r Adran Diwylliant, Cyfryngau a Chwaraeon i sicrhau bod buddiannau Cymru yn parhau i gael eu hadlewyrchu ym mholisïau darlledu Llywodraeth y DU, yn enwedig yng nghyswllt S4C ac yn yr adolygiad o Siarter y BBC sydd ar y gweill | Yn parhau |
| ▪ Gweithio gyda'r Adran Diwylliant, Cyfryngau a Chwaraeon i sicrhau bod Cymru yn parhau i elwa o ymrwymiad y Llywodraeth i sicrhau bod band eang cyflym iawn ar gael i 90% o gartrefi a busnesau'r DU erbyn 2016, ac i 95% o gartrefi a busnesau erbyn 2017. | Diwedd 2016 / Diwedd 2017 |
| ▪ Gweithio gyda'r Adran Diwylliant, Cyfryngau a Chwaraeon i sicrhau bod Cymru yn parhau i elwa o ymrwymiad y Llywodraeth i wella'r ddarpariaeth o rwydweithiau symudol er mwyn i 4G symudol fod ar gael i o leiaf 90% o gartrefi a busnesau'r DU erbyn 2016, ac i 98% o gartrefi a busnesau erbyn 2017. | Diwedd 2016 / Diwedd 2017 |
| ▪ Gweithio gyda'r Adran Drafnidiaeth ar gynlluniau i ddod â chonsesiwn Pont Hafren i ben gyda'r nod o ostwng y tollau croesi er mwyn ysgafnhau'r baich ar fusnesau bach ac i gefnogi gweithgarwch economaidd trawsffiniol | Yn parhau |
| ▪ Ar y cyd â Chwaraeon Cymru a phartneriaid eraill, archwilio'r posibiliadau o gynnal Gemau'r Gymanwlad yng Nghymru a chefnogi ceisiadau am ddigwyddiadau chwaraeon mawr eraill megis Rownd Derfynol Cynghrair y Pencampwyr a chriced rhyngwladol. | Yn parhau |

| B. Gweithio gyda chydweithwyr yn Llywodraeth y DU, Llywodraeth Cymru ac eraill i annog mewnfuddsoddi a thwf mewn busnes yng Nghymru . | |
|---|---|
| ▪ Gweithio gyda Masnach a Buddsoddi y DU a Llywodraeth Cymru i gynyddu'r cyfleoedd sydd ar gael ar gyfer mewnfuddsoddi, gan hwyluso a hyrwyddo Cymru fel cyrchfan ar gyfer buddsoddi. | Yn parhau |
| ▪ Gweithio gydag Innovate UK a Llywodraeth Cymru i gynyddu'r cyfleoedd ar gyfer Ymchwil a Datblygu gan hwyluso a hyrwyddo Cymru fel lle i ddatblygu gwasanaethau a chynnyrch arloesol. | Yn parhau |
| ▪ Gweithio gydag UK Export Finance a Llywodraeth Cymru i gynyddu faint o'u cynnyrch y mae cynhyrchwyr a gweithgynhyrchwyr o Gymru yn allforio | Yn parhau |
| ▪ Rhoi cyhoeddusrwydd i'r cyfleoedd busnes sydd yng Nghymru a chodi ymwybyddiaeth yn eu cylch yn ogystal â thynnu sylw at gyhoeddiadau Llywodraeth y DU sy'n berthnasol i Gymru | Yn parhau |

## *Amcan 2:*

***Diwygio'r setliad datganoli a sicrhau setliad datganoli cliriach, tecach a chadarnach i Gymru***

## *Canlyniadau*

- Cael setliad datganoli sefydlog a chydlynol
- Bydd Deddfwriaeth Llywodraeth y DU, Llywodraeth Cymru a Chynulliad Cenedlaethol Cymru yn adlewyrchu ffiniau datganoli yn gywir
- Perthynas gynhyrchiol rhwng Llywodraeth y DU a'r Sefydliadau Datganoledig yng Nghymru

## *Prif weithgareddau:*

| A. Gweithredu Cytundeb Dydd Gŵyl Dewi, er mwyn creu setliad datganoli cliriach, tecach a chadarnach i Gymru. | |
|---|---|
| ▪ Rhoi model cadw pwerau ar waith yng Nghymru o ran datganoli a chyflawni'r ymrwymiadau a wnaed yng Nghytundeb Dydd Gŵyl Dewi | |
|     ▪ Cyhoeddi Mesur Cymru Drafft ar gyfer Craffu cyn y Broses Ddeddfu | Hydref 2015 |
|     ▪ Ymateb i argymhellion Craffu Cyn Deddfu a chyflwyno Bil Cymru i'r Senedd | Chwefror 2016 |
|     ▪ Sicrhau bod y Bil yn cael ei Ail Ddarlleniad cyn toriad y Pasg | Mawrth 2016 |
|     ▪ Sicrhau bod y Bil yn cael ei roi ar waith | Erbyn diwedd 2016. |
|     ▪ Gweithredu'r elfennau hynny o'r cytundeb sydd ddim yn galw am ddeddfwriaeth sylfaenol | Yn parhau |
|     ▪ Cefnogi'r adolygiad o gysylltiadau rhwng llywodraethau (dan arweiniad Swyddfa'r Cabinet) | Hydref 2015 |
| ▪ Gweithio gyda Thrysorlys Ei Mawrhydi i gyflwyno cyllid gwaelodol ar gyfer Cymru gan ddisgwyl y bydd Llywodraeth Cymru yn galw am refferendwm yn y Senedd ar ddatganoli treth incwm | Adolygiad o Wariant 2015 |
| ▪ Gyrru'r gwaith o weithredu Deddf Cymru 2014 yn llawn yn ei flaen | |
|     ▪ Parhau i bledio'r achos dros refferendwm ar ddatganoli treth incwm | Yn parhau |
|     ▪ Mynychu a chefnogi gwaith Cydbwyllgor y Trysorlysoedd | Yn parhau |
|     ▪ Cefnogi'r gwaith o ran datganoli Treth Dir y Dreth Stamp a Threth Tirlenwi | Ebrill 2018 |

| A. Gweithredu Cytundeb Dydd Gŵyl Dewi, er mwyn creu setliad datganoli cliriach, tecach a chadarnach i Gymru. | |
|---|---|
| ▪ Cefnogi Trysorlys Ei Mawrhydi i adolygu dewisiadau posibl o ran lliniaru ar effeithiau datganoli'r Doll Teithwyr Awyr ar feysydd awyr rhanbarthol | Haf 2015 |

| B. Rhoi cyngor ar y rhyngwyneb rhwng polisïau a deddfwriaeth sydd wedi eu datganoli ac sydd heb eu datganoli | |
|---|---|
| ▪ Cefnogi Adrannau eraill yn y Llywodraeth i sicrhau bod deddfwriaeth y DU yn adlewyrchu'r setliad datganoli, gan geisio caniatâd deddfwriaethol Cynulliad Cenedlaethol Cymru lle bo angen | Yn parhau |
| ▪ Adolygu deddfwriaeth Llywodraeth Cymru a'r Cynulliad i sicrhau ei bod o fewn telerau Deddf Llywodraeth Cymru 2006; a hwyluso ymgysylltiad ag Adrannau eraill yn y Llywodraeth wrth lunio Biliau'r Cynulliad | Yn parhau |

| C. Annog a hwyluso cydweithio rhwng Llywodraeth y DU a'r sefydliadau datganoledig | |
|---|---|
| ▪ Sicrhau ymgysylltu effeithiol a chydweithredol gyda Llywodraeth Cymru er mwyn cydweithio i helpu pobl Cymru | Yn parhau |
| ▪ Gweithredu fel canolfan arbenigedd a chyngor ar gyfer rhyngweithio rhwng Adrannau eraill y Llywodraeth a Llywodraeth Cymru a'u gwaith yng Nghymru, gan gynnwys annog Adrannau i ymgysylltu'n weithredol ynghylch eu rhaglen o weithgareddau yng Nghymru | Yn parhau |
| ▪ Cyfrannu at godi ymwybyddiaeth o faterion datganoli a setliad datganoli Cymru yn Adrannau eraill y Llywodraeth | Yn parhau |

| C. Annog a hwyluso cydweithio rhwng Llywodraeth y DU a'r sefydliadau datganoledig. | |
|---|---|
| ▪ Ymgysylltu'n weithredol â'r Cydbwyllgor Gweinidogion (Pwyllgor Llawn, Pwyllgor Ewrop a Phwyllgor Domestig), y Cyngor Prydeinig-Gwyddelig a phwyllgor Pedairochrog y Gweinidogion Cyllid er mwyn hyrwyddo buddiannau Cymru yn y Deyrnas Unedig | Yn parhau |

| D. Cyfrannu at sicrhau bod gwasanaethau cyhoeddus yn cael eu cyflenwi'n ddi-dor i bobl Cymru. | |
|---|---|
| ▪ Gweithio gyda chydweithwyr yn Llywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru i fynd i'r afael ag unrhyw faterion sy'n codi yng nghyswllt cyflenwi gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru, i sicrhau y darperir gwasanaethau o ansawdd da ledled Cymru, boed y gwasanaethau hynny wedi'u datganoli neu wedi'u cadw. | Yn parhau |
| ▪ Gweithredu i annog gwasanaethau trawsffiniol effeithiol, helpu i ddatrys unrhyw anawsterau a gweithio ar ddatblygu protocolau trawsffiniol gwell er mwyn sicrhau bod pobl ar bob ochr i'r ffin yn cael gwasanaethau cyhoeddus o ansawdd | Yn parhau |

## *Amcan 3:*

***Cynrychioli buddiannau Cymru yn Llywodraeth y DU, a hybu dealltwriaeth ehangach o bolisïau Llywodraeth y DU yng Nghymru***

### *Canlyniadau*

- Sicrhau bod buddiannau Cymru yn cael eu cynrychioli'n llawn ym mhrosesau llunio a gweithredu polisïau Llywodraeth y DU
- Sicrhau ymwybyddiaeth yng Nghymru o bolisïau Llywodraeth y DU mewn meysydd nad ydynt wedi'u datganoli

## *Prif weithgareddau:*

| A. Gweithredu fel eiriolwr dros Gymru wrth galon y Llywodraeth | |
|---|---|
| ▪ Cefnogi'r Ysgrifennydd Gwladol a Gweinidogion yn y gwaith o sicrhau y cynrychiolir buddiannau Cymru yn effeithiol yn y Cabinet ac ym Mhwyllgorau'r Cabinet | Yn parhau |
| ▪ Cefnogi mewnbwn Gweinidogion i'r gwaith o lunio polisïau a deddfwriaeth a'u rhoi ar waith ym mhob rhan o Whitehall, boed hynny drwy gyfrwng gohebiaeth neu mewn cyfarfodydd | Yn parhau |

| B. Cynrychioli buddiannau Cymru mewn meysydd polisi allweddol sydd heb eu datganoli | |
|---|---|
| ▪ Sicrhau dealltwriaeth o fuddiannau ac anghenion Cymru wrth roi agenda diwygio lles a chyflogaeth Llywodraeth y DU ar waith | Yn parhau |
| ▪ Gweithredu fel Hyrwyddwr y lluoedd arfog yng Nghymru | Yn parhau |
| ▪ Cynrychioli buddiannau Cymru mewn datblygiadau polisi sy'n ymwneud â throsedd a phlismona, a chynnal perthnasoedd gweithio effeithiol gyda Chomisiynwyr yr Heddlu a Throseddu a Phrif Gwnstabliaid | Yn parhau |
| ▪ Gweithio gyda'r gymuned leol, gwasanaethau diogelwch a'r Llywodraeth ar bob lefel, gan gynnwys Gweithlu Eithafiaeth y Llywodraeth, er mwyn mynd i'r afael â phob ffurf ar eithafiaeth | Yn parhau |

| C. Cymryd yr awenau yng nghyswllt materion sy'n ymwneud â'r iaith Gymraeg yn Llywodraeth y DU | |
|---|---|
| • Chwilio am gyfleoedd i godi proffil yr iaith Gymraeg ledled y Llywodraeth, a chynorthwyo adrannau Llywodraeth y DU i gyflenwi eu gwasanaethau iaith Gymraeg | Yn parhau |
| ▪ Rhoi cyngor arbenigol i Adrannau ar faterion sy'n ymwneud â'r iaith Gymraeg yng nghyswllt eu meysydd polisi, gan gynnwys mentrau polisi sy'n gysylltiedig â'r Gymraeg. | Yn parhau |

| D. Cyfleu polisïau Llywodraeth y DU a goblygiadau'r polisïau hynny o safbwynt Cymru i'r Senedd, y cyhoedd, y cyfryngau a sefydliadau allanol, a sicrhau bod pobl yn gallu cyflwyno sylwadau i swyddogion a Gweinidogion | |
|---|---|
| ▪ Trefnu rhaglen o ymweliadau rheolaidd gan Weinidogion, ynghyd â chyfarfodydd rheolaidd â nhw, ledled Cymru ac ar draws bob sector | Yn parhau |
| ▪ Sicrhau bod unigolion a chyrff perthnasol allweddol yn ymwybodol o ddatblygiadau | Yn parhau |
| ▪ Darparu cynllun cyfathrebu aml-sianel er mwyn ymgysylltu â chynulleidfaoedd targed | Yn parhau |
| ▪ Parhau i ymgysylltu'n effeithiol â'r Senedd, newyddiadurwyr, sefydliadau newyddion a phartïon cyfrannog eraill | Yn parhau |
| ▪ Creu a chynnal rhwydwaith eang o randdeiliaid o bob rhan o Gymru ac ar draws y sectorau yng Nghymru er mwyn darparu cymorth a chefnogaeth y naill i'r llall. | Yn parhau |
| ▪ Hwyluso cyfarfodydd o'r Uwch Bwyllgor Cymreig er mwyn rhannu negeseuon pwysicaf y Llywodraeth am faterion sydd heb eu datganoli gydag AS Cymru; hwyluso cyfleoedd tebyg gydag Arglwyddi Cymreig | Yn parhau |

## *Amcan 4:*

***Sicrhau bod Swyddfa Cymru yn cyflawni ei hamcanion yn unol ag egwyddorion llywodraethu da a gan ystyried yr angen i sicrhau gwerth am arian.***

## *Canlyniadau*

- Bydd Cynllun Busnes Swyddfa Cymru yn cael ei ddarparu o fewn sylfaen gostau fforddiadwy a chynaliadwy, gan roi gwerth am arian i'r trethdalwr
- Adran sy'n tyfu'n fwy effeithiol ac effeithlon o flwyddyn i flwyddyn
- Adran sy'n esiampl o ran llywodraethu da

| A. Cadw gwariant o fewn y gyllideb. | |
|---|---|
| ▪ Darparu'r Cynllun Busnes o fewn cyfyngiadau gwariant blynyddol a bennir gan Drysorlys EM ym mhob Adolygiad o Wariant. | 31 Mawrth 2016 ac yn parhau |
| ▪ Sicrhau bod prosesau priodol yn eu lle ar gyfer monitro a rhoi adroddiad ar wariant yn y flwyddyn; ymateb i unrhyw wahaniaethau rhwng gwariant amcanol a gwir wariant; a mynd i'r afael â thwyll | Yn parhau |
| ▪ Sicrhau bod mesurau rheoli cadarn ar waith er mwyn datgelu ac atal twyll a mathau eraill o afreoleidd-dra ariannol | Yn parhau |

| B. Cefnogi trawsnewid gwasanaethau'r Llywodraeth drwy nodi meysydd lle gellir gwneud arbedion ynddynt ac ysgogi arbedion yn yr Adran. | |
|---|---|
| ▪ Gwella effeithlonrwydd drwy ddarparu rhaglen o arbedion cost ac arbedion effeithlonrwydd wrth gyflwyno Cynllun Busnes yr Adran | Mawrth 2016 ac yna yn barhaus |
| ▪ Gwerthuso'r dewisiadau o ran cyflenwi gwasanaethau yn ôl y cyfleoedd sydd ar gael i rannu gwasanaethau a dewisiadau eraill | Mawrth 2016 ac yna yn barhaus |

| C. Sicrhau bod Swyddfa Cymru yn defnyddio arferion gorau o ran llywodraethu da. | |
|---|---|
| ▪ Sicrhau strwythur rheoli effeithiol ar gyfer yr Adran, gyda threfniadau llywodraethu priodol a fydd yn cynnwys trefniadau cadarn o ran canfod a rheoli risg | Yn parhau |
| ▪ Sicrhau cydymffurfiad â pholisïau adrannol a pholisïau sy'n berthnasol i'r Gwasanaeth Sifil i gyd | Yn parhau |
| • Darparu'r Cyfrifon a'r Adroddiad Adrannol Blynyddol i'r safon ac o fewn yr amserlenni a gytunwyd. | Gorffennaf 2015 - Wedi'i wneud |